| | |
|---|---|
| **Yn Adrodd i:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **31 Mai 2012** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles** |
| **Teitl:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) .** |

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad, trwy'r atodiadau, yn egluro'r prif newidiadau polisi a deddfwriaethol a gynigir gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol rhagweladwy. Mae darparu trwy bartneriaethau'n nodwedd graidd y cynigion.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Codi ymwybyddiaeth aelodau'n o'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu cynnig yn y ddogfen 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy:

Fframwaith Gweithredu a'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

2.2 Gofyn am awgrymiadau ynghylch y sylwadau y gallai Sir Ddinbych eu mynegi ynghylch yr adroddiad ymgynghorol ar y Bil.

2.3 Gofyn am farn aelodau ynghylch y Bwrdd Moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig i symud y datblygiadau allweddol yn eu blaen yn Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Fod yr aelodau'n cyflwyno sylwadau ar y darpariadau sy'n cael eu cynnig yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)

3.2 Fod yr aelodau'n cyflwyno sylwadau ar y cynnig i sefydlu Bwrdd Moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r cyflwyniad sydd ynghlwm fel Atodiad I yn crynhoi cynnwys dogfen bolisi fawr Llywodraeth Cymru 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu" a'r cynigion sydd yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Gyda'i gilydd maen nhw'n cyflwyno agenda radical ar gyfer trawsffurfio'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Gwireddu'r agenda hon yw craidd Contract 2 yn y Compact am Newid.

4.2 Cafodd dogfen ymgynghorol ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ei chyflwyno gyda dyddiad cau ar 1af Mehefin 2012. Mae'n cynnig cyfle i aelodau gyfrannu at ymateb llywodraeth leol. Mae brîff Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cynigion ar gael i aelodau fel Dogfen Gefndir.

4.3 Mae llawer o'r cynigion yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu" a'r Bil yn rhagdybio y bydd Cynghorau'n darparu gwasanaethau mewn partneriaeth – un ai drwy cydweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill yn y Cyngor, gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cynghorau eraill neu gyda'r sectorau cymunedol, gwirfoddol ac annibynnol. Mae'r siart yn Atodiad 2 yn dangos y strwythurau ar hyn o bryd ar gyfer gwaith rhyng asiantaeth, is ranbarthol a rhanbarthol.

4.4 Bydd rhai materion angen sylw penodol gan Sir Ddinbych, efallai oherwydd bod angen ysgogiad penodol neu fod cyfleoedd penodol yn codi. Awgrymir sefydlu Bwrdd Moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych, ar gyfer Gwasanaethau Plant, Oedolion a busnes, i oruchwylio'r gwaith yma. Bydd yna rai meysydd gwaith sylweddol yn gyffredin gyda moderneiddio'r cyngor yn gyffredinol ac mae'r Siart yn Atodiad 2 yn dangos hynny.

## 5 Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor yn rhagdybio y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffyrdd gwahanol sy'n fwy cost effeithiol ond heb gyfaddawdu ar ansawdd. Y nod yw dal i ddarparu gwasanaethau da i drigolion er bod llai o adnoddau ar gael. Mae hyn yn amcan allweddol i'r gwasanaethau cymdeithasol, sy'n gweld y gofyn am wasanaethau'n cynyddu'n sylweddol, yn enwedig oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio. Mae agenda Moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gobeithio rheoli'r gofyn, yn rhannol trwy gysylltiad ehangach â'r gymuned a'r gwasanaeth. Mae hynny hefyd yn cyd-fynd yn dda gyda blaenoriaeth y Cyngor o fod yn 'agos at ei gymuned'.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r cyflwyniad ynghlwm, a brîff Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn dangos fod problemau arwyddocaol yn codi o Asesiad Effaith Llywodraeth Cymru

ar y newidiadau arfaethedig.  Ymddengys mai byrdwn dadl y ddogfen ymgynghori yw y bydd y newidiadau'n talu amdanyn eu hunain gan y bydd ymyrraeth gynnar yn lleihau'r angen, neu na fydd cymaint o angen, yn nes ymlaen.  Fodd bynnag, er bod gennym dystiolaeth leol y gallai modelau gwasanaeth newydd, yn seiliedig ar ymyrraeth gynnar (e.e. gofal ychwanegol, ail alluogi, cefnogaeth ddwys i deuluoedd) lwyddo i ostwng neu ohirio'r lefel o wasanaeth sydd ei angen, gweithred o ffydd yw'r syniad y bydd y strategaeth hon yn arwain at wasanaethau cymdeithasol 'cynaliadwy'.

Mae'r dyletswyddau newydd ynghylch 'phobl mewn angen' yn y Bil yn berthnasol i lywodraeth leol yn gyffredinol ac nid i'r gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Ac felly, mae'n debyg y bydd gofynion ychwanegol ar wasanaethau megis Tai, Hamdden, Gwasanaethau'r Cwsmer, Cludiant, Cefn Gwlad ac Addysg i gefnogi lles 'pobl mewn angen'.

## 7 Pa ymgynghori a wnaed?

Mae ymgynghoriad cenedlaethol ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ar hyn o bryd a bydd cyrff proffesiynol a chyrff gwahanol sectorau'n cyflwyno sylwadau. Mae Timoedd Rheoli'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion a Busnes Sir Ddinbych wedi trafod y cynigion deddfwriaethol a hefyd y rhai i sefydlu Bwrdd i yrru'r gwaith yn Sir Ddinbych. Cafodd dogfen ymgynghori'r Bil ei gosod ar y fewnrwyd i alluogi staff i gyflwyno sylwadau.  Rhoddwyd cyflwyniad i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chafodd adroddiad yn cynnig sefydlu Bwrdd Moderneiddio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ei drafod gan y Tî m Rheoli Corfforaethol ar 14 Mai.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bydd cost ynghlwm â'r Fframwaith a'r Bil, fodd bynnag mae'n rhy gynnar i'w meintioli ar hyn o bryd.  Er enghraifft, mae'r Bil yn awgrymu y gellid symud arian o gwmpas y system i gyllido gwasanaethau mwy ataliol ac ystod ehangach o wasanaethau lles, ond damcaniaeth yn unig yw hyn heb gynnig unrhyw enghreifftiau penodol.  Hefyd, mae'n debyg y byddai cynigion eraill yn cynyddu costau, megis meini prawf cymhwysedd cenedlaethol, gwell cefnogaeth i ofalwyr, cofrestru gweithlu ac ymestyn rheoleiddio.  Y cwestiwn allweddol yw a ellid adfer y costau ychwanegol yn genedlaethol trwy fuddsoddi mewn mesurau ataliol ac eraill.  Gallai'r effaith ar awdurdodau lleol o ran cyllid a darparu gwasanaeth fod yn arwyddocaol.

## 9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y prif risgiau ar yr adeg yma yw:

- Adnoddau i ddarparu - fel y dangosir ym mharagraff 6.  Bydd yn bwysig dal i wasgu ar Lywodraeth Cymru am gydnabyddiaeth ddigonol o hyn.

- Lywodraethu.  Mae'r Bil yn cynnig set gymhleth o berthnasau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i sicrhau darpariaeth.  Bydd yn rhaid deall yn iawn sut y bydd y rhain yn gweithio,  a  hefyd yn parchu cymryd penderfyniad democratiaid lleol.

- Ymdrin yn lleol â graddfa'r agenda. Bydd y Fframwaith arfaethedig a'r bil yn newid mawr yn yr agenda ar adeg pan mae heriau pellgyrhaeddol i wasanaethau wrth geisio cyfarfod a'r galw o ddydd i ddydd.   Bydd hyn yn gofyn am gynllunio gofalus ac am rannu'r gwaith yn ôl disgyblaeth rheoli prosiect.

**10. Yr Hawl i Benderfynu**

Erthygl 6.3 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych.
A2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - mae gan y Cyngor hawl i wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried sy'n debyg o hyrwyddo neu wella lles cymdeithasol yr ardal.

**11. Swyddog cyswllt:**

Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Moderneiddio a Lles
Ffôn :  01824 706149